



Adroddiad Adolygu Ymarfer Oedolion Estynedig

CWMPAS 1/2019

**Dyddiad cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd:
14^{eg} o Orffennaf 2020**

Adroddiad Adolygu Ymarfer Oedolion

CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig ynghylch:
CWMPAS 1/2019 (Sir Benfro)

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

I gynnwys yma:

- Y cyd-destun cyfreithiol allan o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â hwy
- Yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad
- Y cyfnod o amser a adolygwyd a pham
- Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu fel atodiad

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig gan CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â deddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*¹ a'r canllawiau cysylltiedig *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion*² (Llywodraeth Cymru, 2016). Bodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn o dan Bennod 7 Adolygiadau Ymarfer Oedolion Estynedig.

Rhaid i Fwrdd gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig yn unrhyw un o'r achosion canlynol lle, mae oedolyn sydd mewn perygl sydd, ar unrhyw ddyddiad yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn berson y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau mewn perthynas ag ef i'w amddiffyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, ac mae wedi

- marw; neu
- gael anafiadau a allai beryglu bywyd; neu
- gael nam difrifol a pharhaol i'w iechyd.

Nodir y meini prawf ar gyfer adolygiadau ymarfer oedolion estynedig yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*³.

Diben yr adolygiad yw nodi pwyntiau i'w dysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion wrth archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda'r oedolyn a'i theulu. Bwriad allbwn yr adolygiad yw creu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn arferion rhyngasiantaethol ac amddiffyn oedolion yn y dyfodol. Dylai gynnwys yr amgylchiadau, a arweiniodd at yr adolygiad, gan gynnwys amlygu arfer effeithiol ac ystyriaethau ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud yn wahanol i wella arferion yn y dyfodol.

Mae lefel ychwanegol o graffu ar waith yr asiantaethau statudol a'r cynllun(iau) statudol, a oedd yn eu lle ar gyfer yr unigolyn.

Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig hwn wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**

¹ *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

² *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion (Llywodraeth Cymru, 2016)*

³ *Rheoliad 4(4) o Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*

Yr Amgylchiadau a Arweiniodd at yr Adolygiad

Y person sydd wrth wraidd yr adolygiad hwn yw M. Mae hi bellach yn 28 mlwydd oed. Pan oedd wedi ei gosod mewn llety byw â chymorth yn 2016 bu'n destun cam-drin corfforol a geiriol dros gyfnod o ddeng mis o leiaf. Mae'n oedolyn ifanc agored i niwed oherwydd ei hanabledd dysgu, ei lefelau datblygiadol (adroddwyd tua 18 mis) ac anawsterau cyfathrebu. Mae arni hi angen cymorth a goruchwyliaeth gyson oherwydd ei hanghenion, sy'n cynnwys ymddygiad heriol, ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwytio a Gorfywiogrwydd), diabetes ac epilepsi. Er na chysylltwyd ag M fel rhan o'r adolygiad hwn, gwyddom oddi wrth ei theulu, gweithwyr proffesiynol a'i Chynllun Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) ei bod, yn gyffredinol, yn ferch ifanc hapus ac allblyg iawn.

Mae gan M berthynas agos iawn â'i theulu ac mae'n mwynhau treulio amser gyda nhw. Mae hi'n gymdeithasol iawn ac yn mwynhau bod gydag eraill, yn enwedig pan fydd pobl yn cyfathrebu â hi mewn ffordd frwdfrydig a bywiog.

Mae M yn mwynhau llawer o weithgareddau synhwyrdd ac yn enwedig yn hoffi amser bath / chwarae mewn dŵr a gweithgareddau maldod. Mae hi wrth ei bodd yma ac acw allan, naill ai yn yr ardd neu fynd am dro ac mae'n hoff iawn o fynd ar *rollercoaster* cyflym mewn parciau thema!

Mae rhywfaint o gyd-destun ynghylch ymddygiad heriol M yn bwysig i'r adolygiad hwn, gan ei bod hi ar y cyfan yn ddi-eiriau, ond yn ddyfeisgar o ran rhoi gwybod i eraill beth mae arni ei eisiau. Gall ymddygiadau M, sy'n gallu bod yn heriol, ymddangos am amryw resymau gan gynnwys:

- Er mwyn cyfleu eisiau neu angen
- Er mwyn cael sylw rhyngweithiol gan eraill
- Er mwyn dianc neu osgoi sefyllfa nad oes arni eisiau bod ynddi
- Er mwyn cael rhywbeth y mae arni ei eisiau
- Oherwydd dryswch (methu â gwneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd)
- Os bydd yn teimlo'n sâl

Cafodd ei lleoliad mewn byw â chymorth ei fonitro gan nifer o weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau ac roedd pecyn cymorth ac asesiad risg cynhwysfawr yn eu lle, ond er gwaethaf y rhain, cafodd ei cham-drin yn gorfforol ac ar lafar gan ddau aelod hysbys o staff, oedd yn gweithio yn y llety byw â chymorth.

Y Cyfnod o Amser a Adolygwyd a Pham

Er mwyn adlewyrchu'r swm sylweddol o wybodaeth a chyfranogiad amlasiantaethol wrth gomisiynu gofal y ferch ifanc hon, y cyfnod o amser yr ymdrinnir ag ef yn yr adolygiad hwn yw o'r 1^{af} o Fawrth 2016 hyd y 7^{fed} o Fawrth 2018. Ym mis Mawrth 2016, roedd cynlluniau ar y gweill i drosglwyddo M o leoliad preswyl addysg y tu allan i'r ardal i gartref mwy parhaol. Ystyrid bod y penderfyniadau a wnaed ynghylch y cynllunio yma yn bwysig i'r adolygiad hwn a'r effaith ddilynol a gafodd lleoliad o'r fath ar M.

Caiff yr adolygiad ei lywio gan ddealltwriaeth o'r hyn a fyddai wedi bod yn bosibl ar y pryd, gyda'r wybodaeth/canllawiau ar gael bryd hynny.

Ceir amserlen gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol yn Atodiad 2.

Dylid nodi bod ymchwiliad gan yr Heddlu wedi'i gynnal, a arweiniodd at euogfarnau troseddol ar gyfer dau aelod o staff a gyflogid gan ddarparwr annibynnol y lleoliad byw â chymorth. Fe wnaeth hyn beri oedi cyn cychwyn ar yr Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn. Cynhaliwyd ymchwiliad diogelu heb fod yn droseddol ochr yn ochr ag ymchwiliad yr heddlu a daeth i'r casgliad bod tystiolaeth glir fod M wedi cael ei cham-drin yn sylweddol ar lafar a'i cham-drin a'i hesgeuluso'n sylweddol yn gorfforol dros gyfnod o 10 mis o leiaf.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Nodwch bob pwynt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ynghyd ag amlinelliad byr o'r amgylchiadau perthnasol.

Lleoliadau

Nid yw dod o hyd i leoliad priodol a fydd yn gwella ansawdd bywyd rhywun ag anghenion cymhleth yn dasg hawdd. Weithiau mae'r ffocws yn symud i ystyried a fydd unigolyn yn ffitio'r adnodd yn hytrach na bod yr adnodd yn addas i'r person. Gall dau beth helpu i sicrhau bod y lleoliad y mwyaf priodol ac atal lleoliadau rhag chwalu:

- Yn gyntaf, er mwyn i gomisiynu fod yn rhagweithiol mae angen gwasanaeth pontio cadarn a all ddechrau'r cynllunio pan fydd person ifanc yn cyrraedd 14 mlwydd oed. Mae hyn yn gofyn am dîm arbenigol ag adnoddau da a chysylltiadau effeithiol rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion
- Yn ail, dylai comisiynwyr ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol ddefnyddio'r wybodaeth hon i siapio a dylanwadu ar y farchnad mewn ffordd ragweithiol, gan wneud gofynion penodol yn y dyfodol.

Er bod rolau ynghylch pontio wedi'u sefydlu, nid ydynt yn gweithredu fel gwasanaeth integredig. Mae swm mawr y gwaith yn golygu eu bod yn gorfod canolbwyntio ar yr achosion mwyaf brys; rhai ar y pwynt o fod angen symud lleoliad ac felly ni allant fod mor rhagweithiol ag yr hoffent.

Yn y sefyllfa hon, roedd ymdeimlad o frys ynglŷn ag M gan fod ei lleoliad yn y Sefydliad Addysgol Preswyl wedi'i ymestyn dros flwyddyn. Cafodd yr ystyriaeth, p'un ai'r cynllun byw un person oedd y lleoliad mwyaf priodol neu beidio, ei fwrw i'r cysgod gan bryder proffesiynol ynghylch diffyg dewisiadau gwahanol a'r angen i symud M cyn gynted â phosibl o'r Sefydliad Addysgol Preswyl.

Er mwyn cefnogi symud lleoliadau, mae angen i systemau sefydliadol weithio'n gyflym. Busnesau yw darparwyr ac ni allant gadw lleoliadau ar agor yn rhy hir gan eu bod yn colli arian. Roedd lleoliad blaenorol ar gyfer M wedi ei golli oherwydd na sicrhawyd y cyllid mewn pryd. Arweiniodd hyn at flwyddyn o ansicrwydd iddi.

Mae lleoliad daearyddol lleoliad yn effeithio ar y gofal a ddarperir ar gyfer unigolyn. Yn y sefyllfa hon, roedd y cynllun byw un person y symudodd M iddo yn eithaf unig. Roedd 14 milltir oddi wrth y darparwr preifat ac mewn cymuned fechan, a chafodd hyn effaith ar fonitro a goruchwyllo'r lleoliad, yn ogystal ag ar recriwtio staff, cydberthnasau a goruchwyllo staff.

Mae'n bwysig ystyried yr amgylchedd ffisegol a ddarperir gan leoliad a sut y gallai hyn ddylanwadu ar y gofal a ddarperir. Roedd M wedi symud o gyfleuster preswyl mawr gyda llawer o le i symud o gwmpas ynddo, i fyngalo bychan. Mae M yn rhywun sydd â llawer o egni, sy'n hoffi cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau. A oedd y gofod ffisegol, felly, yn cyfyngu gormod arni hi?

Mae gofalu am bobl ag anghenion cymhleth yn waith dwys iawn ac mae'n gofyn am lefelau uchel o egni. Mae'n hanfodol, felly, meddwl beth ddylai hyd sifft waith fod er mwyn parhau a chynnal y lefel o ryngweithio sydd ei angen. Yn y sefyllfa hon, gweithiai staff dair sifft i ddechrau bob pedair awr ar hugain. Fodd bynnag, ar ôl y cyfnod 'ymgartrefu' newidiwyd hyn i ddwy sifft. Hyd yn oed gyda dau aelod o staff, mae hyn yn amser hir iawn i weithio'n gyson ac yn briodol gyda'r cynlluniau gofal manwl a oedd yn eu lle ar gyfer M.

Mae newid lleoliad yn aml yn anochel wrth i blant a phobl ifanc symud i fyd oedolion; fodd bynnag, mae'n bwysig deall a chydabod effaith newid lleoliadau ar yr unigolyn ac edrych ar sut y gellir ei helpu, nid yn unig i ymgartrefu, ond hefyd i fyw yn y lleoliad yn y tymor hwy. O ran M cafwyd patrwm o ymgartrefu'n dda, mwynhau'r lleoliad ac yna, ymhen amser, ei hymddygiad yn dirywio. A oedd a wnelo hyn o gwbl â'r hyn a oedd yn digwydd iddi; neu a oedd hi'n diflasu neu a oedd y staff yn blino ac yn profi rhywfaint o losgi allan?

Cymorth i Staff

Nid un digwyddiad yw hyfforddi staff ond mae'n rhan annatod o ddatblygu gwybodaeth, sgiliau ac ymarfer yn barhaus. Yn y sefyllfa hon, cyflwynwyd rhaglen hyfforddi gychwynol, fanwl a phwrpasol i dîm y staff er mwyn paratoi ar gyfer M yn symud i mewn. Fodd bynnag, gyda throsiant staff ni chafodd y rhaglen hon ei hailadrodd ar gyfer aelodau newydd o'r tîm. Yr hyn sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd o'r fath yw bod aelodau newydd o'r tîm yn edrych ar staff sefydledig fel esiamplau ac yn efelychu'r hyn y mae eraill yn ei wneud ond yn aml heb ddealltwriaeth o pam ei bod yn bwysig gweithio mewn ffordd benodol neu'r rheswm dros ddulliau penodol. Yna, gall fod yn anodd i rai aelodau o staff mwy newydd wahaniaethu rhwng ymyriadau priodol ac ymarfer gwael. Mae'n bwysig, felly, bod hyfforddiant yn cael ei gynnal yn barhaus ac yn cael ei ddiweddarau.

Efallai y gellid bod wedi gwneud gwell defnydd o gyfarfodydd staff, ar gyfer diweddarau staff ond hefyd i weld a oedd pob aelod o'r tîm yn deall ac yn dilyn cynllun manwl y Strategaeth Ymddygiad Cadarnhaol a luniwyd ar gyfer M neu beidio.

Mae darparu goruchwyliaeth o ansawdd da yn eithriadol o bwysig i fonitro, cefnogi a datblygu staff. Mae angen i oruchwyliaeth greu man myfyriol lle gall unigolion ôl-drafod; cynyddu eu dealltwriaeth a datblygu'r chwilfrydedd proffesiynol angenrheidiol, sef y gallu a'r sgil i archwilio a deall yr hyn sy'n digwydd i unigolion. Mae goruchwyliaeth hefyd yn ffordd o sicrhau bod staff yn gweithio'n gyson ac yn glynu wrth gynlluniau gofal a'u bod yn hyrwyddo ethos a gwerthoedd gofal tosturiol. Pan gaiff ei chynnal yn dda, mae goruchwyliaeth yn arf pwysig i rymuso staff a rhoi lle iddynt chwythu'r chwiban os oes angen gwneud hynny. Roedd tîm M yn cael ei oruchwyllo ond arwynebol a mympwyol oedd hyn. Cododd rhai aelodau o staff bryderon ynghylch ymddygiad rhai cydweithwyr tuag at M ond anwybyddwyd y pryderon hyn ac ni weithredwyd arnynt gan reolwr penodol a fu wedyn yn destun gweithdrefn ddisgyblu.

Gall ymchwiliadau o unrhyw fath fod yn straen ar staff. Mae'n bwysig cydnabod hyn a chefnogi staff fel nad yw'n cael effaith niweidiol ar y gwaith gyda chleientiaid. Yn yr achos hwn, cymerodd yr ymchwiliad diogelu flwyddyn a oedd yn gymharol gyflym ac fe gafwyd canlyniad, rhywbeth sydd ddim yn digwydd bob tro. Fodd bynnag, fe gafodd effaith emosiynol ar weddill y staff er hynny.

Craffu a Goruchwyllo

Rhaid monitro pob lleoliad er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion y bobl sydd wedi eu lleoli ynddo. Mae'n bwysig bod yn glir pwy fydd yn monitro a chydlynu'r ffordd y caiff y monitro ei wneud, ond hefyd cydnabod y cyfyngiadau ar graffu a goruchwyllo. Er enghraifft, roedd M yn denant ac ni all AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) fynd i mewn i denantiaethau oni bai eu bod yn cael cydsyniad i wneud hynny.

Er mwyn i waith craffu ar lleoliadau fod yn gadarn, mae'n ofynnol i'r rhai sydd â goruchwyliaeth weithredu o sefyllfa o 'ansicrwydd parchus'.⁴ Nid yw hyn yn ymwneud â bod yn sinigaidd neu'n rhy amheus ond yn hytrach ynglŷn â phrofi pethau a pheidio â ffurfio rhagdybiaethau. Er enghraifft, derbyniodd y Darparwr fod M wedi cael mynd i'r holl weithgareddau a restrwyd yn ei hamserlen wythnosol pan oedd y cofnodion gofal mewn gwirionedd wedi'u ffugio a hithau wedi'i chyfyngu i'r lleoliad. Mae'n ymwneud felly â meddwl sut i wirio ei bod wedi bod yn nofio drwy gysylltu efallai â darparwyr gweithgaredd penodol. Yr arfer gorau fyddai i weithwyr proffesiynol arsylwi gofal ar waith. Heblaw am ymweliadau a gynlluniwyd nid oes tystiolaeth bod unrhyw un wedi arsylwi'r staff yn darparu gofal ac yn rhyngweithio ag M.

Ymwelodd y TCAD (Tîm Cymunedol Anabledau Dysgu) a staff y Bwrdd Iechyd ag M yn y lleoliad ond roedd yr ymweliadau hyn bob amser wedi'u cynllunio ymlaen llaw ac roedd tîm staff M yn eu disgwyl. Weithiau gall ymweliadau dirybudd ddarparu data defnyddiol ynglŷn â sut y mae unigolyn yn cael ymlaen mewn lleoliad.

⁴ Llywodraeth Ei Mawrhydi (2003) *The Victoria Climbié Inquiry* Adroddiad am Ymchwiliad yr Arglwydd Laming

CWMPAS 1/2019 Adroddiad Estynedig Adolygiad Ymarfer Oedolion

Cafwyd adolygiad o'r lleoliad ymhen 6 mis ond nid yw'n glir pwy oedd yn cymryd rhan yn yr adolygiad hwn ac, unwaith eto, yr oedd yn seiliedig ar ymweliad cynlluniedig.

Y Rhag-amodau ar gyfer Cam-drin

Daeth yr ymchwiliad diogelu i'r casgliad bod tystiolaeth glir bod M wedi cael ei cham-drin a'i hesgeuluso'n sylweddol ar lafar ac yn gorfforol dros gyfnod o ddeng mis o leiaf. Roedd yna nifer o ffactorau yn y sefyllfa hon oedd yn cynyddu'r risgiau i M ac yn galluogi'r camdrinwyr i sefydlu diwylliant o ofn, bwlio a bygythiadau yn y lleoliad. Roedd y lleoliad ymhell ar wahân i'r brif uned ddarparu a lleoliad un person ydoedd, a olygai fod M hefyd wedi'i gwahanu oddi wrth ei chyfoedion.⁵ Roedd y lleoliad mewn cymuned fechan ac roedd gan y tîm o staff gysylltiadau â'i gilydd y tu allan i'r gweithle ac, yn wir, roedd rhai yn perthyn i'w gilydd. Ni wrandawyd ar yr aelodau hynny o'r tîm a gododd bryderon; roedd yna gydgyllwynio a hefyd ofn ac anwybodaeth. Roedd y diffyg hyfforddiant ar gyfer aelodau mwy newydd o'r tîm yn golygu eu bod yn meddwl bod rhai o'r ymddygiadau a welent yn dderbyniol. Roedd yr holl ffactorau hyn yn darparu'r rhag-amodau i ddiwylliant cam-drin ddatblygu. Roedd y camdrinwyr yn hynod o ddeheuig ac yn gallu 'parato' gweithwyr proffesiynol ac aelodau o'r teulu.

Weithiau gellir gweld dangosyddion perthynas o gam-drin yn ymddygiadau ac ymddangosiad corfforol ac emosiynol dioddefwr camdriniaeth. Yn y sefyllfa hon, nid oedd yr un o'r fflagiau arferol yn bresennol. Er enghraifft, byddai M yn dilyn yr aelodau o staff oedd yn cam-drin pan adawent yr ystafell. Oedd hyn yn golygu ei bod yn hoff ohonynt neu'n ofnus ohonynt? Nid oedd yn gallu mynegi hyn. Pan oedd hi'n ddagreul neu pan fyddai ei hymddygiad yn dirywio a oedd hyn yn golygu ei bod yn ddigalon, yn ddiflas neu'n ofnus? Roedd cydgyllwynio, bygythiadau a mygu pryderon staff yn golygu na chafodd hyn ei archwilio o gwbl. Mae Canllaw Clinigol NICE 11⁶ yn tynnu sylw at y ffaith fod ymddygiad heriol yn aml yn arwydd o angen nas diwallwyd ac felly ei bod yn bwysig asesu'n rheolaidd ac adolygu ymddygiad sy'n herio gan y gallai hyn fod yn arwydd, ymhlith pethau eraill, o gamfanteisio, camdriniaeth neu esgeulustod gan eraill. Mae'n hanfodol felly, bob amser 'feddwl am ddiogelu' ac y gallai cam-drin fod yn achos posibl, yn enwedig pan fydd ymddygiad yn dirywio neu pan fydd unigolyn yn mynd yn ofidus. Yn y sefyllfa hon bu oedi cyn adolygu cynllun y Strategaeth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS). Dim ond pan oedd pryder ynghylch iselder M y digwyddodd, a hynny ychydig cyn chwythu'r chwiban.

Rhannu Gwybodaeth a Gweithio Gyda'i Gilydd

Roedd rhywfaint o gydweithio rhyngbroffesiynol da yn y sefyllfa hon. Mae'r timau iechyd a gofal cymdeithasol yn credu bod y ffaith fod y timau iechyd a gofal cymdeithasol wedi eu cydleoli wedi bod yn gymorth yn hyn o beth. Fodd bynnag, fe'i rhwystrwyd hefyd gan brinder staff a throsiant anochel gweithwyr proffesiynol, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol. Nid yw'r timau bellach wedi'u cydleoli sydd â goblygiadau o ran cyfathrebu a rhannu gwybodaeth, ac felly bydd angen ymdrech fwy ymwybodol i gynnal cydweithio effeithiol.

Mae gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd hefyd yn elfen hanfodol o weithio gydag unigolion. Yn y sefyllfa hon, cafodd llawer o waith ei wneud i gynnal cyfathrebu â holl aelodau teulu M. Fodd bynnag, oherwydd bod un o rieni M yn weithiwr Gofal Cymdeithasol proffesiynol, efallai bod rolau'n aneglur weithiau a bod rhai tybiaethau wedi eu gwneud ynghylch craffu a monitro'r lleoliad.

Ymarfer Effeithiol

Amlygodd yr adolygiad y pedwar pwynt canlynol fel enghreifftiau o ymarfer effeithiol

1. Roedd angen adnewyddu ac addasu'r lleoliad un person cyn y gallai M symud. Cwblhawyd y gwaith hwn mewn modd effeithlon ac amserol.

⁵ DS: nid yw lleoliadau un person yn cael eu cefnogi mwyach oherwydd eu bod yn gallu gwneud pobl yn agored i risg

⁶ Canllaw NICE 11 (2015) *Challenging Behaviour and Learning Disabilities: prevention and interventions for people with learning disabilities whose behaviour challenges*

CWMPAS 1/2019 Adroddiad Estynedig Adolygiad Ymarfer Oedolion

2. Roedd y newid o'r Sefydliad Addysgol Preswyl yn drylwyr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Aeth staff o'r lleoliad i'r Sefydliad Addysgol a threulio amser gydag M a chymryd rhan yn ei gweithgareddau a'i threfn ddyddiol dros gyfnod o 24 awr.
3. Dewiswyd y tîm gwreiddiol yn y lleoliad un person yn ofalus am fod arnynt eisiau gweithio gydag M. Cawsant raglen ddwys o hyfforddiant pwrpasol cyn i M symud i mewn ac felly roeddent wedi'u paratoi'n dda.
4. Cynhaliwyd yr ymchwiliad diogelu i safon uchel a bu cyfathrebu a chydweithio effeithiol ymysg y rhwydwaith proffesiynol.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hyrwyddo'r hyn sydd i'w ddysgu oddi wrth yr achos hwn nododd yr adolygiad y camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau ohono a'r gwelliannau a ddisgwyliid o ganlyniad:

1. Dylid ystyried dod â'r gweithwyr pontio at ei gilydd mewn tîm pontio integredig.
2. Dylai Comisiynwyr, AGC ac Unigolion Cyfrifol gynnal ymweliadau dirybudd, y mae'n rhaid iddynt fod yn rheolaidd, ac adolygu eu prosesau craffu a sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau:
 - Bod goruchwyliaeth yn cyflawni'r swyddogaethau o gefnogi a datblygu staff, yn darparu lle i ôl-fyfyrio ac yn monitro safonau a chysondeb ymarfer.
 - Bod gan bob darparwr raglenni ymsefydlu cynhwysfawr sy'n cynnwys diogelu, natur camdriniaeth, pwysigrwydd chwythu'r chwiban a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ofal.
 - Bod staff darparwyr yn cael hyfforddiant adnewyddu ar ddiogelu bob 3 blynedd.
3. Sefydlu gweithgor i ystyried datblygu System Adolygu Annibynnol ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu lle mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn sicrhau bod lleoliadau a chynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion yr oedolyn yn llawn. Byddai gweithwyr proffesiynol a'r teulu yn croesawu'r argymhelliad hwn.
4. Dylid atgoffa pob ymarferydd am yr angen am ansicrwydd parchus, chwilfrydedd proffesiynol ac ystyried camdriniaeth fel rheswm dros ymddygiad heriol sy'n gwaethygu.

CWMPAS 1/2019 Adroddiad Estynedig Adolygiad Ymarfer Oedolion

Datganiad gan yr Adolygwr/wyr			
Adolygwr 1	Barbara Firth	Adolygwr 2	Mandy Nichols-Davies <i>(Fel bo'n briodol)</i>
Datganiad bod yn annibynnol o'r achos <i>Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd</i>		Datganiad bod yn annibynnol o'r achos <i>Datganiad cymhwyster Sicrhau Ansawdd</i>	
Gwnaf y datganiad canlynol, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:		Gwnaf y datganiad canlynol, cyn imi ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:	
<ul style="list-style-type: none"> • Nad wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r oedolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ynglŷn â'r achos. • Nad wyf wedi cael unrhyw reolaeth linell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw. • Bod gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. • Bod yr adolygiad wedi ei gynnal yn briodol a'i fod yn drwyadl wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel y'u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. 		<ul style="list-style-type: none"> • Nad wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r oedolyn na'r teulu, nac wedi rhoi cyngor proffesiynol ynglŷn â'r achos. • Nad wyf wedi cael unrhyw reolaeth linell uniongyrchol ar yr ymarferwr/ymarferwyr dan sylw. • Bod gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, y wybodaeth a'r profiad a'r hyfforddiant i gynnal yr adolygiad. • Bod yr adolygiad wedi ei gynnal yn briodol a'i fod yn drwyadl wrth ddadansoddi a gwerthuso'r materion fel y'u nodwyd yn y Cylch Gorchwyl. 	
Adolygwr 1		Adolygwr 2	
<i>(Llofnod)</i>		<i>(Llofnod)</i>	
Enw	Barbara Firth	Enw	Mandy Nichols-Davies
.....		
<i>(Llythrennau bras)</i>		<i>(Llythrennau bras)</i>	
Dyddiad	Dyddiad
Cadeirydd y Panel Adolygu			
<i>(Llofnod)</i>			
Enw	Anthony Griffiths		
.....			
<i>(Llythrennau bras)</i>			
Dyddiad:		

Proses Adolygu Ymarfer Oedolion

I gynnwys yma'n gryno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolid ar y Panel Adolygu*
- *Bod digwyddiad dysgu wedi ei gynnal a'r gwasanaethau oedd yn bresennol*
- *Bod aelodau o'r teulu wedi cael eu hysbysu, bod eu barn wedi ei cheisio a'u bod wedi cael eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu a bod adborth wedi ei ddarparu iddynt.*

Proses Adolygu Ymarfer Oedolion

Mae M bellach yn 28 mlwydd oed. Pan oedd wedi ei gosod mewn llety byw â chymorth yn 2016 bu'n destun cam-drin corfforol a geiriol dros gyfnod o ddeng mis o leiaf. Mae'n oedolyn ifanc agored i niwed oherwydd ei hanabledd dysgu, ei lefelau datblygiadol (adroddwyd tua 18 mis) ac anawsterau cyfathrebu. Mae arni hi angen cymorth a gorchwyliaeth gyson oherwydd ei hanghenion, sy'n cynnwys ymddygiad heriol, ADHD (Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywigrwydd), diabetes ac epilepsi. Fodd bynnag, mae M yn unigolyn hapus a bywiog, sy'n ffynnu ar sylw a gweithgareddau.

Cafodd ei lleoliad mewn byw â chymorth ei fonitro gan nifer o weithwyr proffesiynol o wahanol asiantaethau ac roedd pecyn cymorth ac asesiad risg cynhwysfawr yn eu lle, ond er gwaethaf y rhain, cafodd ei cham-drin yn gorfforol ac ar lafar gan ddau aelod hysbys o staff, oedd yn gweithio yn y llety byw â chymorth.

Er na all M ddweud wrthym pa effaith a gafodd y gamdriniaeth a ddiodefodd arni dangosai difrifoldeb ei phrofiad fod y meini prawf ar gyfer cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion wedi cael eu bodloni. Cafodd y mater ei ystyried gan y Grŵp Gweithredol Lleol a daethpwyd i gytundeb y dylid cyfeirio hwn i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion. Gwnaeth y grŵp hwn wedyn argymhelliad i Gadeirydd CWMPAS, y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol, y dylid cynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig. Cymeradwyodd y Cadeirydd yr argymhelliad hwn

Yn unol â'r canllawiau statudol ar gyfer cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, cynullwyd panel amlasiantaethol i reoli'r adolygiad. Roedd y gwasanaethau a'r asiantaethau a gynrychiolid fel a ganlyn:

- Yr Heddlu
- Comisiynu'r Awdurdod Lleol
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu yr Awdurdod Lleol
- Comisiynu a Gwasanaethau Anabledd Dysgu'r Bwrdd Iechyd
- Tîm Diogelu'r Bwrdd Iechyd
- Cynrychiolydd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Rhanbarthol CYSUR
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Penodwyd Cadeirydd Annibynnol sy'n dal swydd uwch yn yr Heddlu ac sy'n brofiadol o adolygiadau ymarfer amlasiantaethol. Nid oedd ganddo ran yn yr achos hwn cyn hyn na gwybodaeth am y ferch ifanc dan sylw.

Fel sy'n arferol mewn Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig, penodwyd Prif Adolygwr ac Ail Adolygwr. Nid oedd gan yr un ohonynt wybodaeth flaenorol na rhan mewn rheoli M. Comisiynwyd yr Adolygwr Annibynnol o gwmni allanol ac mae wedi cynnal llawer o adolygiadau ar draws y DU ac wedi rhoi cyngor ynghylch canllawiau adolygu ymarfer. Roedd gan yr ail Adolygwr ddealltwriaeth o'r cyd-destun lleol.

Y Digwyddiadau Dysgu

Yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig, cynhaliwyd dau ddigwyddiad dysgu. Cynhaliwyd un ar gyfer ymarferwyr ar yr 21^{ain} o Ionawr 2020 ac un ar gyfer rheolwyr ar y 23^{ain} o Ionawr 2020.

Cafodd y ddau ddigwyddiad eu hwyluso gan yr adolygwyr ac roedd Cadeirydd y Panel yn bresennol i gynrychioli'r Panel. Roedd diben y digwyddiadau dysgu fel a ganlyn.

- Rhannu safbwyntiau aelodau'r teulu;
- Rhoi'r cyfle i ymarferwyr a rheolwyr gyfrannu a rhoi mewnbwn i'r adolygiad yn uniongyrchol drwy adrodd stori M o'u hymwneud hwy â hi;
- Galluogi'r gweithwyr proffesiynol oedd wedi cymryd rhan i fyfrio a gwrandao ar ei gilydd tra'n gyfrannu ac yn nodi'r hyn oedd i'w ddysgu.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol yn y ddau ddigwyddiad dysgu ystyried:

- Asesiadau
- Gwneud penderfyniadau
- Camau gweithredu
- Rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill
- Meysydd o arfer da
- Meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau

Roedd yr ymarferwyr a'r Asiantaethau a gynrychiolid yn y Digwyddiadau Dysgu yn dod o:

- Yr Heddlu
- Comisiynu'r Awdurdod Lleol
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu yr Awdurdod Lleol
- Comisiynu'r Bwrdd Iechyd
- Gwasanaethau Anabledd Dysgu'r Bwrdd Iechyd
- Y darparwr gwasanaeth annibynnol
- Arolygiaeth Gofal Cymru

Roedd gwerthusiadau o'r digwyddiad dysgu i ymarferwyr yn gadarnhaol ac roedd y rhai a fynychodd yn gwerthfawrogi'r cyfle i fyfrio a dysgu. Fe wnaeth mewnwelediad a myfyrdodau ymarferwyr a rheolwyr gyfrannu gwybodaeth i'r dysgu a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad.

Cynnwys y Teulu yn y Broses Adolygu

Gwahoddwyd aelodau o deulu M i gymryd rhan yn y broses adolygu. Roeddent yn croesawu'r cyfle hwn ac roeddent yn gadarnhaol bod Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cael ei gynnal. Cyfarfu'r adolygwyr ag aelodau o'r teulu yn uniongyrchol a rhannwyd barn a theimladau'r teulu gydag ymarferwyr a rheolwyr yn y digwyddiadau dysgu perthnasol.

Bu safbwynt y teulu o brofiad M yn y gwasanaethau a gomisiynwyd yn rhan annatod o'r adolygiad hwn a'r hyn a ddysgwyd ynghyd â'r argymhellion. Cafodd y teulu gyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft.

Atodiad 1

Cylch Gorchwyl

Tasgau craidd:

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau y gwasanaethau a enwir a Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU).
- Archwilio gwaith rhyngasiantaethol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i'r unigolyn a'r teulu.
- Gofyn am gyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog oedd yn gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal dau Ddigwyddiad Dysgu: un ar gyfer ymarferwyr ac un ar gyfer rheolwyr. Nodi'r adnoddau gofynnol.

Ar gyfer adolygiadau estynedig YN UNIG. Yn ogystal â'r broses adolygu, talu sylw neilltuol i'r canlynol:

- A oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am yr oedolyn mewn perygl a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac yn cael ei ystyried gan weithwyr proffesiynol wrth asesu, cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r oedolyn mewn perygl, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut y cyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad i'r oedolyn oedd mewn perygl.
- A oedd y camau a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl yn gadarn, ac yn briodol ar gyfer yr oedolyn hwnnw a'i amgylchiadau.
- A weithredwyd y camau gweithredu'n effeithiol, a gawsant eu monitro a'u hadolygu ac a gyfrannodd pob asiantaeth yn briodol at ddatblygu a chyflawni'r camau gweithredu amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y camau gweithredu a weithiodd yn dda a'r rhai na wnaethant weithio'n dda a pham. I ba raddau yr oedd asiantaethau'n herio'i gilydd ynghylch effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd yn erbyn deilliannau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr oedolyn oedd mewn perygl. A ddefnyddiwyd y protocol ar gyfer anghytundeb proffesiynol.
- A gafodd priod ddyletswyddau statudol asiantaethau oedd yn gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl a'r teulu eu cyflawni.
- P'un a oedd rhwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn oedd yn atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill).

Tasgau penodol y Panel Adolygu:

- Nodi a chomisiynu dau adolygwr, y bydd un ohonynt yn adolygwr arweiniol, i weithio gyda'r panel adolygu yn unol â'r canllawiau ar gyfer yr adolygiad.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu i'r adolygiad, cynhyrchu llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau a gymerwyd eisoes.
- Cynhyrchu llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a damcaniaethau.
- Cynllunio dau Ddigwyddiad Dysgu gyda'r adolygwyr i gynnwys nodi pwy ddylai fod yn bresennol a'r trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
- Cynllunio gyda'r adolygwyr y trefniadau i gysylltu ag aelodau o'r teulu cyn y Digwyddiad Dysgu os yw'n briodol.
- Derbyn ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad Ymarfer Oedolion i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, bod y tybiaethau cychwynnol wedi derbyn sylw a bod unrhyw ddysgu ychwanegol wedi cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.

CWMPAS 1/2019 Adroddiad Estynedig Adolygiad Ymarfer Oedolion

- Cytuno ar gasgliadau'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w hystyried a'u cytuno.
- Lle bo'n briodol gwneud trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu.

Tasgau Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru:

- Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau i'r Bwrdd eu dysgu i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol neu'r cynllun gweithredu.
- Y Panel Adolygu i gwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
- Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru i'w anfon at asiantaethau perthnasol i gael sylwadau terfynol cyn ei lofnodi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cadarnhau trefniadau i'r is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan gynnwys sut y caiff gwelliannau disgwylidig i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cyhoeddi'r cynllun ar wefan Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ac unrhyw wefannau eraill y cytunwyd arnynt.
- Cytuno ar ddsbarthu i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Cadeirydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, mewn cytundeb â Chyfarwyddwr Arweiniol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, fydd yn gyfrifol am wneud pob sylw cyhoeddus ac ymateb i ddiddordeb y cyfryngau mewn perthynas â'r adolygiad hyd nes y bydd y broses wedi'i chwblhau.

Atodiad 2

Digwyddiadau Arwyddocaol

- Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2016 roedd paratoadau ar y gweill i M symud o'r uned addysgol breswyl i denantiaeth byw â chymorth preifat yn ei sir enedigol.
- Darparwyd y tîm gofal gan ddarparwr preifat, a oedd 14 milltir i ffwrdd.
- Symudodd M i'r byngalo ar 4 Gorffennaf 2016. Setlodd yn dda ac roedd yn gyffrous am fod yn ei chartref newydd.
- Roedd tîm staff o 9 o bobl a 3 sifft ym mhob 24 awr.
- Aeth yr wythnos gyntaf yn dda. Roedd y staff yn gadarnhaol ac yn gofyn am fwy o weithgareddau.
- Ar y 5^{ed} o Orffennaf 2016, anfonwyd y cynllun Strategaeth Ymddygiad Cadarnhaol (PBS) interim a siart cofnodi ABC at Dîm Cymunedol Anableddau Dysgu (TCAD).
- Ar yr 8^{fed} o Orffennaf 2016, gofynnodd y staff am fwy o weithgareddau.
- Ar y 12^{fed} o Orffennaf 2016, cododd staff bryderon nad oedd digon o amser ar gyfer trosglwyddo, gan gynnwys amser i ddarllen y cynllun Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol (PBM). Y cynllun i'w adolygu ymhen chwe wythnos.
- Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2016, lleihawyd y gymhareb staffio o 3:1 i 2:1.
- Mynegodd mam M bryderon fod y biliau nwy a thrydan yn rhy uchel ac nad oedd y staff yn cynllunio nac yn cyllidebu.
- Ar y 13^{eg} o Awst, 2016, gadawodd aelod o staff oherwydd iddi fethu ei chyfnod prawf. Aeth un o'r tramgwyddwyr ar wyliau estynedig.
- Ddiwedd mis Awst 2016, cododd y Bwrdd lechyd bryderon, oedd yn cynnwys digwyddiadau nad oeddent yn cael eu cofnodi (cicio/tynnu gwallt); staff ddim yn deall y cynllun PBS a strwythur a chysondeb sifftiau.
- Datblygwyd cynllun strwythuredig i staff weithio o amgylch cynllun PBS gyda chyfleoedd i staff fyfyrto, gwneud newidiadau, cefnogi a nodi strategaethau.
- Ar y 6^{ed} o Fedi 2016, dywedodd staff ar y sifft nad oeddent yn gweld y cynllun PBS yn hawdd ei ddilyn a gofynnwyd am fersiwn hawdd ei ddarllen.
- Ar yr 8^{fed} o Fedi 2016, roedd staff yn gweithio sifftiau hirach.
- Ar y 19^{eg} o Fedi 2016, ymunodd aelod newydd o staff â'r tîm.
- Ddiwedd mis Medi 2016, mynegwyd pryderon gan weithwyr proffesiynol, oedd yn ymweld, bod y staff yn cael trafferth i lenwi'r rota ac nad oedd yr holl staff oedd yn gweithio gyda M wedi'u hyfforddi yn PBM.
- Ar y 12^{fed} o Hydref 2016, cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau'r staff ar sifft ynghylch agweddau ar gynllun PBS.
- Ddechrau mis Tachwedd 2016, daeth yr adolygiad 6 mis i'r casgliad bod y lleoliad er lles gorau M; ei bod yn parhau i fod yr unig denant a bod gweithgareddau i gael eu ffurfioli.
- Ar yr 21^{ain} o Dachwedd 2016, gadawodd aelod arall o staff ac ar y 5^{ed} o Ragfyr ymunodd rhywun arall â'r tîm.
- Ym mis Ionawr 2017, bu cyfarfod o Dîm Cymunedol Anableddau Dysgu yn trafod y gwaethygiad yn ymddygiadau M a'r dirywiad cyffredinol yn ei hiechyd. Cafwyd trafodaeth ynghylch y ffordd yr oedd gweithgareddau'n cael eu rheoli. Nid oedd M wedi cael gwrthfotigau ar gyfer UTI.

CWMPAS 1/2019 Adroddiad Estynedig Adolygiad Ymarfer Oedolion

- Ddiwedd mis Ionawr 2017, dywedodd y staff nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr a'u bod yn ei chael yn anodd ymdopi. Bu digwyddiadau ac ni throsglwyddwyd y rhain i Dîm Cymunedol Anableddau Dysgu.
- Ym mis Chwefror 2017, bu cyfarfod tîm amlddisgyblaethol yn trafod y posibilrwydd i reolwyr y darparwr ryddhau staff ar gyfer gweithdai ymarfer adfyriol.
- Ar y 3^{ydd} o Ebrill 2016, ymunodd aelod newydd o staff â'r tîm ac roedd un o'r tramgwyddwyr yn ôl yn darparu gofal yn y byngalo.
- Ddiwedd mis Ebrill 2017, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch M yn symud i ofal preswyl ond teimlai mam ar hyn o bryd mai'r peth gorau oedd gadael pethau fel yr oeddent.
- Ym mis Mehefin 2017, gofynnodd Mam M a allai'r darparwr preifat gynnig amgylchedd mwy ysgogol a mwy o le awyr agored gan fod yr amgylchedd presennol yn unig ac yn ddwys. Cytunwyd i drafod hyn ymhellach pan fyddai llety addas wedi ei nodi yn narpariaeth breswyl y darparwr preifat.
- Ym mis Gorffennaf 2017 mewn cyfarfod staff, codwyd pryderon ynghylch y dirywiad yn ymddygiadau M.
- Ddechrau mis Awst 2017, roedd y teulu'n bryderus am ymddangosiad M ac yn meddwl tybed a allai hi fod yn ddigalon.
- Ddechrau mis Medi 2017, ymddiswyddodd y Rheolwr Cofrestredig yng ngwasanaeth y darparwyr preifat yn ystod proses ddisgyblu.
- Ar y 18^{fed} o Fedi 2017, cysylltodd Cyfarwyddwr y darparwr gwasanaeth â'r Tîm Diogelu Oedolion i ddweud bod chwythwr chwiban yn honni bod tramgwyddwr wedi ymosod ar M.
- Dechreuwyd ymchwiliad diogelu, cafodd y tramgwyddwr ei arestio a'i gyfweld. Cyfwelwyd tramgwyddwr arall hefyd o dan rybudd.
- Symudwyd M i uned breswyl y darparwr.

CWMPAS 1/2019 Adroddiad Estynedig Adolygiad Ymarfer Oedolion

At ddefnydd Llywodraeth Cymru'n unig

Dyddiad y derbyniwyd y wybodaeth: (dyddiad)

Anfonwyd llythyr o gydnabyddiaeth at Gadeirydd y Bwrdd:(dyddiad)

Cylchredwyd i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol(dyddiad)

Asiantaethau	Do	Naddo	Rheswm
AGGCC			
Estyn			
AIC			
Arolygydd Ei Mawrhydi yr Heddlu			
Arolygydd Ei Mawrhydi y Gwasanaeth Prawf			